

DISGRIFIAD O RÔL A CHYFRIFOLDEBAU AELOD O GYNGOR GWYNEDD

Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud

Egwyddorion ymddygiad cynghorwyr

- Agwedd agored a thryloyw
- Gonestrwydd
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Derbyn gwahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd
- Cynnal y gyfraith

1. **Atebolrwydd**

- I etholwyr y ward a thrigolion y gymuned ehangach
- I'r Cyngor Llawn

2. **Swyddogaethau penodol**

2.1 Arwain y Gymuned

- Cynrychioli buddiannau'r gymuned yn y Cyngor
- Gwrando ar lais pawb yn y gymuned
- Cyfathrebu hefo'r gymuned, eu hysbysu am bolisïau a gweithgaredd y Cyngor, a rheoli eu disgwyliadau
- Dylanwadu ar y Cyngor i ymateb i ofynion y gymuned
- Ymgymryd â gwaith achos unigol a chyfeirio unigolion i'r adrannau cywir
- Bod yn ddolen gyswllt rhwng y Cyngor a'r gymuned
- Gweithredu yn unol â'r addewidion a wnaed yn yr etholiad

2.2 Cymryd rhan yng ngwaith y Cyngor

- Dylanwadu ar bolisïau'r Cyngor, ei benderfyniadau a'i weledigaeth, trwy gymryd rhan mewn cyfarfodydd o'r Cyngor, y Pwyllgorau Craffu a Phwyllgorau eraill
- Deall polisïau a gweithdrefnau'r Cyngor er mwyn gwneud y defnydd gorau ohonynt.
- Mynychu holl gyfarfodydd a Phwyllgorau perthnasol, gan baratoi'n drylwyr ar eu cyfer ymlaen llaw a chyfrannu'n llawn
- Dod i benderfyniadau ar sail tystiolaeth gytbwys gan roi ystyriaeth deg i'r holl ffactorau perthnasol
- Ceisio adeiladu consensws trwy gydweithio gydag aelodau eraill a swyddogion

- Cydbwyso anghenion y gymuned leol a rhai'r Cyngor cyfan wrth ddod i benderfyniadau

2.3 Cynrychioli'r Cyngor ar gyrff allanol

(e.e. *Ilywodraethwyr ysgol, awdurdod heddlu, mudiadau lleol*)

- Deall rôl y corff allanol, a rôl cynrychiolydd y Cyngor arno
- Mynychu cyfarfodydd o'r corff allanol gan gyfrannu at ei drafodaethau
- Cydweithio i adeiladu perthynas waith dda gyda'r corff allanol
- Adrodd yn ôl i'r Cyngor ar waith y corff allanol yn ôl y galw
- Paratoi at gyfarfodydd er mwyn cynrychioli'r Cyngor yn effeithiol
- Cadw at reolau, canllawiau a Pholisi Iaith y Cyngor ar gynrychiolaeth ar gyrff allanol
- Derbyn a pharchu Cyfansoddiad y corff allanol
- Mynychu cyfarfodydd o'r Cyngor Cymuned perthnasol fel sylwedydd o bryd i'w gilydd

2.4 Cynnal safonau

- Cadw at Gôd Ymddygiad Aelodau a hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad
- Cadw at y Protocol Cyswllt aelod/swyddog
- Neilltuo'r amser angenrheidiol i waith y Cyngor a chwarae rhan lawn yn y gwaith (*ar gyfartaledd cymer y gwaith 3 diwrnod yr wythnos*)
- Parchu rôl a chyfraniad aelodau eraill, a swyddogion
- Parchu gwerthoedd y Cyngor
- Parchu penderfyniadau democrataidd y Cyngor

2.5 Datblygu Personol a phroffesiynol

- Ymrwymo i hunanddatblygiad a hyfforddiant

Disgrifiad o rôl yr Arweinydd a'i Ddirprwy

(Mae'r arweinydd yn cael ei ethol gan y Cyngor Llawn ac yn arwain y Cyngor tan yr etholiad nesaf – sydd fel rheol yn gyfnod o bedair blynedd. Mae'r Arweinydd yn penodi'r Cabinet ac yn arwain cyfeiriad gwleidyddol y Cyngor)

Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud

Egwyddorion ymddygiad cynghorwyr

- Agwedd agored a thryloyw
- Gonestrwydd
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Derbyn gwahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd
- Cynnal y gyfraith

1. Atebolrwydd

- I'r Cyngor Llawn
- I'r cyhoedd

2. Diben a gweithgareddau

- **Rhoi arweiniad gwleidyddol i'r Cyngor**
 - Bod yn arweinydd gwleidyddol i'r Cyngor ac yn brif lefarwr gwleidyddol iddo.
 - Rhoi arweiniad o ran meithrin cysyniad gwleidyddol ym mholisiau'r Cyngor.
 - I ffurfio gweledigaeth ar gyfer y Cyngor a'r gymuned.
 - Rhoi arweiniad cryf a chllir ynglŷn â chydlynu polisiau, strategaethau a threfniadau darparu gwasanaethau.
- **Penodi'r Cabinet***
 - Dynodi cyfrifoldebau priodol.
 - Penodi cynghorwyr priodol i gyflawni'r cyfrifoldebau hynny.
 - Rhoi cyfrifoldebau i aelodau'r Cabinet yn ôl eu galluedd.
 - Penodi'r Dirprwy Arweinydd.
- **Cynrychioli'r Awdurdod a bod yn llysgennad iddo**
 - Cynrychioli'r Awdurdod yn ôl safonau uchel. Cynrychioli'r Awdurdod mewn modd cryf, galluog a huawdl yn y sir ac mewn cyrff allanol fel ei gilydd.
 - Cynrychioli'r Awdurdod ym Mhwyllgor Cydlynu CLIC a Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol CLIC.
 - Rhoi arweiniad a chymorth i bartneriaethau a mudiadau lleol.
 - Cynrychioli'r Awdurdod mewn cyrff rhanbarthol a gwladol lle bo'n briodol.

- **Rhoi arweiniad yn y maes mae'n gyfrifol amdano**

- Ysgwyddo cyfrifoldebau penodol, gan gadw mewn cof ddiben a gwaith cynghorydd gweithredol a'r disgrifiad o'i swyddogaeth.

- **Rheoli ac arwain gwaith y Cabinet a llywio ei gyfarfodydd**

- Gofalu bod gwaith y Cabinet yn mynd yn esmwyth trwy reoli'r rhaglen waith a'i datblygu drwy'r amser.
- Gofalu bod gwaith y Cabinet yn cyd-fynd ag amcanion polisiâu gwladol.
- Cyngori a mentora aelodau eraill o'r Cabinet yn eu gwaith.
- Llywio cyfarfodydd y Cabinet yn unol â'r Cyfansoddiad.

- **Cymryd rhan ym mhroses benderfynu'r Cabinet**

- Cydweithio'n agos ag aelodau eraill y Cabinet er mwyn gofalu bod polisiâu a fframwaith cyllidebol y Cyngor yn effeithiol a bod gwasanaethau o'r radd flaenaf ar gael i'r bobl leol.
- Derbyn cyfrifoldeb ar y cyd a chefnogi penderfyniadau'r Cabinet ar ôl eu cyhoeddi.

- **Cydweithio â swyddogion i arwain yr Awdurdod**

- Cysylltu â'r Prif Weithredwr a swyddogion priodol eraill yn rheolaidd.
- Cydweithio â staff y Cyngor ynghlŷn â gweledigaeth a chyfeiriad strategol y Cyngor, cyfrifoldebau swyddogion ym maes rheoli, a llunio polisiâu.

- **Arwain partneriaethau a'r gymuned**

- Rhoi arweiniad i bartneriaethau strategol lleol a phartneriaid lleol ynghlŷn â nodau a blaenoriaethau sy'n gyffredin iddyn nhw.
- Bod yn gyfryngwr pan fo anghytuno ynghylch blaenoriaethau.
- Arwain y gymuned leol trwy ddangos gweledigaeth a rhagwelediad.

- **Llywodraethu mewnol, safonau moesol a chysylltiadau**

- Hyrwyddo a hwyluso llywodraethu da yn y Cyngor.
- Arwain y gymuned a hyrwyddo dinasyddiaeth weithgar.
- Hyrwyddo a chynnal llywodraeth agored a thryloyw.
- Meithrin a chadw cysylltiadau teilwng, priodol ac effeithiol â gweithwyr y Cyngor.
- Cadw at Côt Ymddygiad Aelodau, Protocol y Cyngorwyr a'r Swyddogion a'r safonau ymddwyn uchaf mewn swydd gyhoeddus.

Dirprwy arweinydd

(cefnogi'r arweinydd gyda'i ddyletswyddau ac i weithredu ar ei ran yn ei absenoldeb)

- Cyflawni dyletswyddau'r Arweinydd pan fo'n absennol.
- Cynorthwyo'r Arweinydd mewn dyletswyddau penodol yn ôl yr angen.

Disgrifiad o rôl Arweinydd Gwrthblaid
(Gwrthblaid yw'r term am y blaid wleidyddol ail fwyaf)

Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud

Egwyddorion ymddygiad cynghorwyr

- Agwedd agored a thryloyw
- Gonestrwydd
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Derbyn gwahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd
- Cynnal y gyfraith

1. Atebolrwydd

- I'r cylch gwleidyddol a'i henwebodd.

2. Diben a gweithgareddau

- **Rhoi arweiniad gwleidyddol i wrthblaid**
 - Pennaeth gwleidyddol a phrif lefarydd cylch yr wrthblaid.
 - Rhoi arweiniad wrth herio polisiau'r Cyngor yn adeiladol.
 - Herio gweledigaeth y Cyngor a'r gymuned yn adeiladol lle bo'n briodol.
 - Rhoi arweiniad cryf a chllir wrth gydlynu trefniadau amgen ar gyfer polisiau, strategaethau a gwasanaethau.
- **Cynrychioli gwrthblaid yr Awdurdod**
 - Cynrychioli cylch gwrthblaid yr Awdurdod yn ôl safonau uchel a bod yn bennaeth cryf, medrus a huawdl wrth wneud hynny.
 - Cynrychioli'r Cyngor mewn cyrff allanol.
- **Llywodraethu mewnol, safonau moesol a chysylltiadau**
 - Hyrwyddo a hwyluso llywodraethu da yn y Cyngor.
 - Arwain y gymuned a hyrwyddo dinasyddiaeth weithgar.
 - Hyrwyddo a chynnal llywodraeth agored a thryloyw.
 - Meithrin cydsyniad a chadw cysylltiadau teilwng, priodol ac effeithiol â gweithwyr y Cyngor.
 - Cadw at Côd Ymddygiad Aelodau, Protocol y Cynghorwyr a'r Swyddogion a'r safonau ymddwyn uchaf mewn swydd gyhoeddus.

Rôl Dirprwy Arweinydd Gwrthblaid

- Cyflawni dyletswyddau'r Arweinydd pan fo'n absennol.
- Cynorthwyo'r Arweinydd mewn dyletswyddau penodol yn ôl yr angen.

Disgrifiad o rôl Cadeirydd Pwyllgor Safonau

(sy'n hyrwyddo, cynnal a gwarchod safonau ymddygiad Aelodau o fewn y Cyngor a phriodoldeb yn holl drafodion y Cyngor)

Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud

Egwyddorion ymddygiad cynghorwyr

- Agwedd agored a thryloyw
- Gonestrwydd
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Derbyn gwahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd
- Cynnal y gyfraith

1 Atebolrwydd

- I'r Cyngor Llawn

2 Rôl, diben a gweithgarwch

- **Arwain a chyfeirio**

- Rheoli cyfarfodydd mewn modd hyderus ac effeithiol i hwyluso awyrgylch cynhwysol a chyfranogol sy'n arwain at benderfyniadau eglur.
 - Amlygu agwedd didwyll a diduedd wrth weithredu, gan dderbyn cyngor proffesiynol, ac ymateb iddo.
 - Gweithredu yn unol â gofynion y Cyfansoddiad a'r deddfau a pholisïau perthnasol.
 - Gofalu bod y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn unol â pholisi Iaith Cyngor Gwynedd i hybu defnydd o'r iaith Gymraeg.
 - Cadeirio cyfarfodydd yn unol â rheolau cyfansoddiadol Cyngor Gwynedd. (Gweler y Cyfansoddiad, rhan 4 – Rheolau Gweithdrefn)
 - Bod yn llysgennad i'r Pwyllgor gan feithrin dealltwriaeth o'i waith.
- Arwain y Pwyllgor wrth gyflawni ei rôl ynglŷn â:
 - hyrwyddo a chynnal safonau uchel ymddygiad gan gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig;
 - cynorthwyo'r cynghorwyr a'r aelodau cyfetholedig i gadw at Côt Ymddygiad Aelodau;
 - cynghori'r Cyngor am fabwysiadu neu ddiwygio Côt Ymddygiad Aelodau;
 - monitro hynt Côt Ymddygiad Aelodau;

- cyngori a hyfforddi cynghorwyr ac aelodau cyfetholedig (neu drefnu iddynt gael eu hyfforddi) am faterion sy'n berthnasol i'r Côt Ymddygiad Aelodau;
- caniatáu eithriadau i gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig;
- ymdrin ag adroddiadau tribiwnlys neu dribiwnlys cyfamserol ac adroddiadau Swyddog Monitro'r Cyngor am unrhyw fater mae'r swyddog hwnnw wedi'i roi gerbron Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru;
- cyflawni swyddogaethau ynglŷn â Chynghorau Cymunedol a'u haelodau.

Disgrifiad o rôl Aelod o Bwyllgor Safonau

(sy'n hyrwyddo, cynnal a gwarchod safonau ymddygiad Aelodau o fewn y Cyngor a phriodoldeb yn holl drafodion y Cyngor)

1 Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud

Egwyddorion ymddygiad cynghorwyr

- Agwedd agored a thryloyw
- Gonestrwydd
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Derbyn gwahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd
- Cynnal y gyfraith

1 Atebolrwydd

- I'r Cyngor Llawn
- I Gadeirydd Pwyllgor Safonau

2 Rôl, diben a gweithgarwch

- **Deall natur Pwyllgor Safonau a'i helpu i gyflawni ei rôl trwy:**
 - hyrwyddo a chynnal safonau uchel ymddygiad gan gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig;
 - cynorthwyo'r cynghorwyr a'r aelodau cyfetholedig i gadw at Côt Ymddygiad Aelodau;
 - cynghori'r Cyngor am fabwysiadu neu ddiwygio Côt Ymddygiad Aelodau;
 - monitro hynt Côt Ymddygiad Aelodau;
 - cynghori a hyfforddi cynghorwyr ac aelodau cyfetholedig (neu drefnu iddynt gael eu hyfforddi) am faterion sy'n berthnasol i Côt Ymddygiad Aelodau;
 - caniatáu eithriadau i gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig;
 - ymdrin ag adroddiadau tribiwnlys neu dribiwnlys cyfamserol ac adroddiadau Swyddog Monitro'r Cyngor am unrhyw fater mae'r swyddog hwnnw wedi'i roi gerbron Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
- Deall materion technegol, gweithdrefnol a chyfreithiol i gyfrannu mewn modd teg a chywir i waith y Pwyllgor.
- Gweithredu mewn modd trylwyr, amhleidiol a gwrthrychol wrth dderbyn a defnyddio cyngor arbenigol am yr amrywiol faterion sydd gerbron y pwyllgor.
- **Cymryd rhan mewn cyfarfodydd a phenderfynu ar faterion**

- Cymryd rhan yn effeithiol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Safonau.
- Dod i benderfyniadau doeth a chytbwys (yn ôl amodau gorchwyl y Pwyllgor) sy'n cyd-fynd â gofynion y gyfraith, y cyfansoddiad a pholisïau perthnasol.
- **Llywodraethu mewnol, safonau moesegol a chysylltiadau**
 - Diogelu ansawdd penderfyniadau'r Pwyllgor a gofalu eich bod yn cyflawni'ch rôl fel aelod ohono trwy gadw at Côd Ymddygiad Aelodau a gofynion cyfansoddiadol a chyfreithiol eraill.
 - Hyrwyddo a hwyluso llywodraethu da yn y Cyngor.
 - Deall amryw rolau cynghorwyr, swyddogion a phobl allanol sy'n gweithredu yn y maes mae'r Pwyllgor yn gyfrifol amdano.

Disgrifiad o rôl Cadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

(sy'n gyfrifol am adolygu'r adnoddau sydd ar gael i'r Cyngor weithredu ei swyddogaethau democrataidd yn effeithiol)

Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud

Egwyddorion ymddygiad cynghorwyr

- Agwedd agored a thryloyw
- Gonestrwydd
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Derbyn gwahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd
- Cynnal y gyfraith

1 Atebolrwydd

- I'r Cyngor Llawn

2 Rôl, diben a gweithgarwch

• Arwain a chyfeirio

- Rheoli cyfarfodydd mewn modd hyderus ac effeithiol i hwyluso awyrgylch cynhwysol a chyfranogol sy'n arwain at benderfyniadau eglur.
- Amlygu agwedd didwyll a diduedd wrth weithredu, gan dderbyn cyngor proffesiynol, ac ymateb iddo
- Gweithredu yn unol â gofynion y Cyfansoddiad a'r deddfau a pholisïau perthnasol
- Gofalu bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn unol â pholisi Iaith Cyngor Gwynedd i hybu defnydd o'r iaith Gymraeg
- Cadeirio cyfarfodydd yn unol â rheolau cyfansoddiadol Cyngor Gwynedd. (Gweler y Cyfansoddiad, Rhan 4 - Rheolau Gweithdrefn)
- Bod yn llysgennad i'r pwyllgor, gan feithrin dealltwriaeth o'i waith

• Rheoli cyfarfodydd yn effeithiol

- Cydweithio gyda'r Is-gadeirydd a swyddogion i gytuno rhaglen a nôd ac amcanion eglur i bob cyfarfod
- Rheoli'r ffordd mae'r cyfarfod yn mynd rhagddo, gan ofalu bod amcanion y cyfarfod yn cael eu cyflawni a bod pawb yn cadw at y Côt Ymddygiad Aelodau, y rheolau gweithdrefn a gofynion cyfansoddiadol eraill (gan gadw mewn cof bod ambell bwyllgor yn cael ei we ddarlledu)
- Gofalu bod y gwaith paratoi priodol yn cael ei wneud ymlaen llaw (sy'n cynnwys, fel sy'n briodol, cyfarfodydd paratoi neu frifio, egluro rolau aelodau'r Pwyllgor, swyddogion a mynychwyr eraill, amserlennu)

- Gofalu bod pawb sy'n cymryd rhan yn y cyfarfod yn cael cyfle i gyfrannu'n briodol, ac yn derbyn ymatebion priodol
- Gofalu bod y Pwyllgor yn glir ar ei benderfyniad a chrynhoi unrhyw gynigion a'r rhesymau dros y penderfyniad
- **Cyfranogiad a datblygiad aelodau'r Pwyllgor**
- Annog perfformiad uchel gan bob aelod o'r Pwyllgor
- Asesu perfformiad torfol y Pwyllgor a hwyluso gweithgareddau datblygu priodol a/neu gymryd y camau priodol.

3 **Arwain y Pwyllgor wrth gyflawni ei rôl ynglŷn â:-**

- Penodi Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd
- Cadw golwg ar y staff, y swyddfeydd a'r adnoddau eraill sydd ar gael i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd i ofalu eu bod yn addas
- Llunio adroddiad i'r Cyngor bob blwyddyn am y mater uchod
- Penodi aelodau a Chadeiryddion is-bwyllgorau i gyflawni swyddogaethau mae'r Pwyllgor wedi'u dirprwyo
- Ystyried adroddiadau mae Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd wedi'u llunio
- Llunio strategaeth y Cyngor ar gyfer cynorthwyo a datblygu cynghorwyr
- Gofalu bod digon o weithgareddau hyfforddi a datblygu ar gael i'r cynghorwyr yn ôl strategaeth y Cyngor ar gyfer eu cynorthwyo a'u datblygu a Breinlen Cynorthwyo a Datblygu Cynghorwyr Cymru
- Gofalu bod digon o arian yn y gyllideb i ddatblygu cynghorwyr
- Gofalu bod gweithgareddau datblygu personol ac adolygiadau blynyddol o ddatblygiad personol ar gael i gynghorwyr
- Cydweithio â hyrwyddwr gweithgareddau cynorthwyo a datblygu'r cynghorwyr lle bo'n berthnasol i hybu rôl cynghorwyr a mynnu'r cymorth a'r cyrsiau datblygu priodol
- Amlygu agwedd annibynnol, gonest ac amhleidiol wrth benderfynu ar faterion yn ôl gofynion y gyfraith, y cyfansoddiad a pholisïau perthnasol
- **Hyrwyddo rôl Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**
 - Gweithredu'n llysgennad dros y Pwyllgor, gan helpu pobl i ddeall ei rôl
 - Gweithredu yn ôl gofynion technegol, gweithdrefnol a chyfreithiol i oruchwylio swyddogaethau'r Pwyllgor mewn modd teg a chywir
 - Gofalu bod y Pwyllgor yn gweithio mewn modd trylwyr, amhleidiol a gwrthrychol wrth dderbyn a defnyddio cyngor arbenigol am yr amrywiol faterion sydd gerbron y Pwyllgor
- **Llywodraethu mewnol, safonau moesegol a chysylltiadau**
 - Datblygu enw da a gonestrwydd y Pwyllgor a'i benderfyniadau
 - Deall amryw rolau cynghorwyr, swyddogion a phobl allanol sy'n gweithredu yn y maes mae'r pwyllgor yn gyfrifol amdano
 - Hyrwyddo a hwyluso llywodraethu da yn y Cyngor

Disgrifiad o rôl Aelod o Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

(sy'n gyfrifol am adolygu'r adnoddau sydd ar gael i'r Cyngor weithredu ei swyddogaethau democrataidd yn effeithiol)

Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud

Egwyddorion ymddygiad cynghorwyr

- Agwedd agored a thryloyw
- Gonestrwydd
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Derbyn gwahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd
- Cynnal y gyfraith

1 Atebolrwydd

- I'r Cyngor Llawn
- I Gadeirydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd

2 Rôl, diben a gweithgarwch

2.1 Ymgymeryd â rôl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd

- Penodi Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd.
- Sicrhau adnoddau digonol o staffio, y swyddfeydd a'r adnoddau eraill sydd ar gael i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd i ofalu eu bod yn addas.
- Llunio adroddiad i'r Cyngor Llawn bob blwyddyn am y mater uchod.
- Penodi aelodau a Chadeiryddion Is-bwyllgorau i gyflawni swyddogaethau mae'r Pwyllgor wedi'u dirprwyo.
- Ystyried adroddiadau mae Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd wedi'u llunio.
- Llunio strategaeth y Cyngor ar gyfer cynorthwyo a datblygu cynghorwyr.
- Gofalu bod digon o weithgareddau hyfforddi a datblygu ar gael i'r cynghorwyr yn ôl strategaeth y Cyngor ar gyfer eu cynorthwyo a'u datblygu a Breinlen Cynorthwyo a Datblygu Cynghorwyr Cymru.
- Gofalu bod digon o arian yn y gyllideb i ddatblygu cynghorwyr.

- Gofalu bod gweithgareddau datblygu personol ac adolygiadau blynyddol o ddatblygiad personol ar gael i gynghorwyr.
- Deall materion technegol, gweithdrefnol a chyfreithiol i gyfrannu mewn modd teg a chywir i waith y Pwyllgor.
- Gweithredu mewn modd trylwyr, amhleidiol a gwrthrychol wrth dderbyn a defnyddio cyngor arbenigol am yr amrywiol faterion sydd gerbron y Pwyllgor.

2.2 Cymryd rhan mewn cyfarfodydd a phenderfynu ar faterion

- Cymryd rhan yn effeithiol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor.
- Dod i benderfyniadau doeth a chytbwys (yn ôl amodau gorchwyl y Pwyllgor) sy'n cyd-fynd â gofynion y gyfraith, y Cyfansoddiad a pholisïau perthnasol.
- Hyrwyddo a hwyluso llywodraethu da yn y Cyngor.
- Deall amryw rolau cynghorwyr, swyddogion a phobl allanol sy'n gweithredu yn y maes mae'r Pwyllgor yn gyfrifol amdano.

Disgrifiad o rôl Aelod o Bwyllgor Craffu

(Mae Pwyllgor Craffu yn

- cadw trosolwg ar benderfyniadau'r Cyngor a'u dwyn i gyfrif
- cynnal ymchwiliadau)

Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud

Egwyddorion ymddygiad cyngorwyr

- Agwedd agored a thryloyw
- Gonestrwydd
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Derbyn gwahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd
- Cynnal y gyfraith

1 Atebolrwydd

- I'r cyhoedd
- I'r Cyngor Llawn
- I Gadeirydd y Pwyllgor Craffu perthnasol

2 Rôl, diben a gweithgarwch

- Cymryd rhan gyflawn yng ngwaith y Pwyllgor, megis llunio a chyflawni ei raglen waith, ac unrhyw gylchoedd gorchwyl a gorffen perthnasol.

2.1 Cymryd rhan mewn cyfarfodydd

- Paratoi'n ddigonol ac yn briodol ar gyfer cyfarfodydd trwy ymchwil a dogfennau.
- Cymryd rhan mewn modd rhagweithredol ac effeithiol, yn ôl gwybodaeth berthnasol, gan gymryd i ystyriaeth y Côd Ymddygiad Aelodau, y rheolau sefydlog a gofynion cyfansoddiadol eraill.
- Gweithredu mewn modd gwrthrychol, amhleidiol a thrylwyr

2.2 Gofalu bod y Cabinet yn atebol, a monitro perfformiad / trefniadau darparu gwasanaethau

- Mynd i'r afael â achosion tangyflawni
- Cloriannu penderfyniadau'r Cabinet a'u 'galw i mewn' lle bo'n briodol.
- Cadw llygad ar yr hyn mae darparwyr mewnol ac allanol yn ei gyflawni yn ôl safonau a thargedau perthnasol, gan gynnwys holi'r Cabinet a'r uwch swyddogion dros gyfnod.

2.3 Blaen-graffu polisiau

- Helpu i greu, datblygu, gwella a mireinio polisiau'r Cyngor.

- Cwestiynu polisiau yn ôl tystiolaeth gadarn megis y gyfraith neu flaenoriaethau gwleidyddol lleol.
- Asesu effaith polisiau cyfredol.

2.4 Arwain y gymuned

- Defnyddio gwaith craffu i fynd i'r afael â materion yn y gymuned ac ymgysylltu â'r cyhoedd.
- Annog pobl gysylltiedig i gymryd rhan yng ngwaith yr Awdurdod.
- Hwyluso trafodaethau ymhlith y trigolion a phobl gysylltiedig eraill am flaenoriaethau, amcanion a'r hyn sy'n cael ei gyflawni.

Disgrifiad o rôl Cadeirydd Pwyllgor Archwilio

(Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau llywodraethiant ac ariannol y Cyngor mewn trefn)

Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud

Egwyddorion ymddygiad cyngorwyr

- Agwedd agored a thryloyw
- Gonestrwydd
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Derbyn gwahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd
- Cynnal y gyfraith

1 Atebolrwydd

- I'r Cyngor Llawn

2 Rôl, diben a gweithgarwch

- **Arwain a chyfeirio**

- Rheoli cyfarfodydd mewn modd hyderus ac effeithiol i hwyluso awyrgylch cynhwysol a chyfranogol sy'n arwain at benderfyniadau eglur.
- Amlygu agwedd didwyll a diduedd wrth weithredu, gan dderbyn cyngor proffesiynol, ac ymateb iddo
- Gweithredu yn unol â gofynion y cyfansoddiad a'r deddfau a pholisïau perthnasol
- Gofalu bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn unol â pholisi Iaith Cyngor Gwynedd i hybu defnydd o'r iaith Gymraeg
- Cadeirio cyfarfodydd yn unol â rheolau cyfansoddiadol Cyngor Gwynedd. (Gweler y Cyfansoddiad, Rhan 4 - Rheolau Gweithdrefn)
- Bod yn llysgennad i'r Pwyllgor, gan feithrin dealltwriaeth o'i waith

- **Rheoli cyfarfodydd yn effeithiol**

- Cydweithio gyda'r Is-gadeirydd a swyddogion i gytuno rhaglen a nôd ac amcanion eglur i bob cyfarfod
- Rheoli'r ffordd mae'r cyfarfod yn mynd rhagddo, gan ofalu bod amcanion y cyfarfod yn cael eu cyflawni a bod pawb yn cadw at Côt Ymddygiad Aelodau, y rheolau gweithdrefn a gofynion cyfansoddiadol eraill (gan gadw mewn cof bod ambell bwyllgor yn cael ei we ddarlledu)
- Gofalu bod y gwaith paratoi priodol yn cael ei wneud ymlaen llaw (sy'n cynnwys, fel sy'n briodol, cyfarfodydd paratoi neu friffio, egluro rolau aelodau'r pwyllgor, swyddogion a mynychwyr eraill, amserlennu)

- Gofalu bod pawb sy'n cymryd rhan yn y cyfarfod yn cael cyfle i gyfrannu'n briodol, ac yn derbyn ymatebion priodol
- Gofalu bod y Pwyllgor yn glir ar ei benderfyniad a chrynhoi unrhyw gynigion a'r rhesymau dros y penderfyniad
- **Cyfranogiad a datblygiad aelodau'r Pwyllgor**
- Annog perfformiad uchel gan bob aelod o'r Pwyllgor
- Asesu perfformiad torfol y Pwyllgor a hwyluso gweithgareddau datblygu priodol a/neu gymryd y camau priodol.

3 **Arwain y pwyllgor wrth gyflawni ei rôl ynglŷn â:-**

- Adolygu ac archwilio materion ariannol y Cyngor.
- Llunio adroddiadau ac argymhellion am faterion ariannol y Cyngor.
- Adolygu ac asesu trefniadau rheoli risgiau, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol y Cyngor.
- Llunio adroddiadau ac argymhellion i'r Cyngor ynglŷn â pha mor addas ac effeithiol yw'r trefniadau hynny.
- Goruchwylio trefniadau archwilio ariannol mewnol ac allanol y Cyngor.
- Adolygu'r adroddiadau ariannol mae'r Cyngor wedi'u paratoi a rhoi sêl bendith arny'n nhw pan fo pwerau wedi'u dirprwyo.
- Meithrin perthynas ag archwilyr mewnol ac allanol a Swyddog Monitro'r Cyngor.
- Llunio rhaglen waith ar gyfer cyflawni swyddogaethau'r Pwyllgor.
- Adolygu ac asesu gwaith y Pwyllgor a'i aelodau.
- **Hyrwyddo rôl Pwyllgor Archwilio**
 - Gweithredu'n llysgennad dros y Pwyllgor, gan helpu pobl i ddeall ei rol.
 - Deall materion technegol, gweithdrefnol a chyfreithiol i oruchwylio swyddogaethau'r Pwyllgor mewn modd teg a chywir.
 - Gofalu bod y Pwyllgor yn gweithio mewn modd trylwyr, amhleidiol a gwrthrychol wrth dderbyn a defnyddio cyngor arbenigol am yr amrywiol faterion sydd gerbron y Pwyllgor a'r prosesau archwilio ariannol.
- **Llywodraethu mewnol, safonau moesegol a chysylltiadau**
 - Deall y peryglon ariannol sy'n berthnasol i faterion llywodraethu corfforaethol; bod yn fodlon bod datganiadau sicrhad y Cyngor, megis y datganiad blynyddol ar lywodraethu, yn adlewyrchu'r peryglon hynny ac unrhyw waith mae'i angen i'w lleddfu.
 - Datblygu enw da a gonestrwydd y Pwyllgor a'i benderfyniadau.
 - Deall amryw rolau cynghorwyr, swyddogion a phobl allanol sy'n gweithredu yn y maes mae'r pwyllgor yn gyfrifol amdano.
 - Hyrwyddo a hwyluso llywodraethu da yn y Cyngor.

Disgrifiad o rôl Aelod o Bwyllgor Archwilio

(Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau llywodraethiant ac ariannol y Cyngor mewn trefn)

Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud

Egwyddorion ymddygiad cyngorwyr

- Agwedd agored a thryloyw
- Gonestrwydd
- Goddefgarwch a pharch
- Cydraddoldeb a thegwch
- Derbyn gwahaniaethau diwylliannol
- Cynaliadwyedd
- Cynnal y gyfraith

1 Atebolrwydd

- I'r Cyngor Llawn
- I Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio

2 Rôl, diben a gweithgarwch

2.1 Deall rôl pwyllgor archwilio ariannol a chyflawni ei rolau:

- Adolygu ac archwilio materion ariannol y Cyngor.
- Cyflwyno adroddiadau ac argymhellion am faterion ariannol y Cyngor.
- Adolygu ac asesu trefniadau rheoli risgiau, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol y Cyngor.
- Cyflwyno adroddiadau ac argymhellion i'r Cyngor ynglŷn â pha mor addas ac effeithiol yw'r trefniadau hynny.
- Goruchwyllo trefniadau archwilio ariannol mewnol ac allanol y Cyngor.
- Adolygu'r adroddiadau ariannol mae'r Cyngor wedi'u paratoi a rhoi sêl bendith arnyn nhw pan fo pwerau wedi'u dirprwyo.
- Deall materion technegol, gweithdrefnol a chyfreithiol i gyfrannu mewn modd teg a chywir i waith y Pwyllgor.
- Gweithredu mewn modd amhleidiol, trylwyr a gwrthrychol, gan dderbyn a defnyddio cyngor arbenigol am sut mae cynnal cyfarfodydd a'r amrywiol faterion sydd gerbron y pwyllgor.

2.2 Cymryd rhan mewn cyfarfodydd a phenderfynu ar faterion

- Cymryd rhan yn effeithiol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio; holi am faterion sy'n rhan o gylich gorchwyl y Pwyllgor a gofyn am eglurhad pan fo amwysedd.
- Dod i benderfyniadau doeth a chytbwys (yn ôl amodau gorchwyl y Pwyllgor) sy'n cyd-fynd â gofynion y gyfraith, y cyfansoddiad a pholisïau perthnasol.

- **Llywodraethu mewnol, safonau moesegol a chysylltiadau**
 - Deall y peryglon ariannol sy'n berthnasol i faterion llywodraethu corfforaethol.
 - **Bod yn fodlon bod datganiadau sicrhad y Cyngor, megis y datganiad blynyddol ar lywodraethu, yn adlewyrchu'r peryglon hynny ac unrhyw waith sydd angen i'w lleddfu.**
 - Hyrwyddo a hwyluso llywodraethu da yn y Cyngor.
 - Deall amryw rolau cynghorwyr, swyddogion a phobl allanol sy'n gweithredu yn y maes mae'r Pwyllgor yn gyfrifol amdano